
# Ysgol Newyddiaduraeth, y Cyfryngau aDiwylliant

**Israddedig**

Rhaglenni Gradd 2025



CARDIFF UNIVERSITY

PRIFYSGOL CAERDYDD

# Croeso


| | |
|---|---|
| Dewiswch Gaerdydd | 3 |
| Amdanom ni | 4 |
| Rhagoriaeth ymchwil | 7 |
| Ein graddau | 10 |
| Gyrfaoedd | 13 |
| Gofynion mynediad | 16 |


**Ail**
yn y DU am ansawdd ein hymchwil astudiaethau cyfathrebu, diwylliant a'r cyfryngau.

Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2021

Ymhlith y
**10 prifysgol uchaf**
yn y DU ar gyfer cyfathrebu ac astudiaethau cyfryngau.

Ffynhonnell: The Times Good University Guide a'r Complete University Guide 2023

# Dewiswch Gaerdydd

Mae'r ffaith eich bod chi'n darllen y geiriau hyn yn golygu y gallech chi, neu rywun sy'n golygu llawer i chi, fod ar fin neidio i fywyd prifysgol.

P'un a ydych chi'n ei alw'n naid, yn gam neu'n gyfnod pontio, mae'n newid mawr ac yn un rydyn ni'n ei ddeall. Mae dod i arfer â bywyd prifysgol yn cymryd amser ac amynedd.

Ond dro ar ôl tro ar ddiwedd y flwyddyn rydyn ni'n clywed graddedigion yn dweud cymaint maen nhw wedi caru a thrysori pob cam.

Felly, eleni mae rhai o dystebau ein cyn-fyfyrwyr a'n myfyrwyr presennol yn sôn am sut y llwyddon nhw i ymgartrefu ym mywyd y brifysgol, gan ymuno â chlybiau a chymdeithasau, a gwthio eu hunain allan o'u mannau cysurus, gwneud (llawer) o ffrindiau newydd ac felly osod sylfaen ar gyfer astudio a llwyddo yn y dyfodol.

## Arwain y ffordd

Cyn hynny, mae'n dda gwybod bod ein staff yn cynnwys rhai o awduron, ymchwilwyr a meddylwyr blaenllaw'r byd ar ystod eang o bynciau pwysig a fydd yn bwydo'n uniongyrchol i'ch darlithoedd. Maen nhw'n gweithio ochr yn ochr â chydweithwyr proffesiynol sydd wedi mwynhau gyrfaoedd rhagorol mewn newyddiaduraeth, y diwydiannau diwylliannol a chreadigol a chysylltiadau cyhoeddus.

## Balchder mewn pobl a diwylliant

Rydyn ni'n dathlu amrywiaeth ein hysgol gyda staff a myfyrwyr o bob cwr o'r byd. Rydyn ni hefyd yn falch o fod yn brifysgol Gymreig ym mhrifddinas Cymru. Oeddech chi'n gwybod bod gan ein myfyrwyr yr hawl i gyflwyno gwaith cwrs a sefyll arholiadau drwy gyfrwng y Gymraeg ar draws yr holl raglenni israddedig?

## Eich gradd, eich gyrfa

Felly ymunwch â ni i greu pennod newydd gyffrous yn ein hanes wrth i ni wneud y gorau o'n hadeilad o'r radd flaenaf sydd yng nghanol cymuned cyfryngau Caerdydd.

Does gen i ddim amheuaeth y gwelwch chi fod gennym ni ddiwylliant bywiog a chyfeillgar, a bod yr amgylchedd addysgu yn gefnogol ac yn heriol.

Bydd y myfyrwyr sydd wedi bod yma o'ch blaen yn tystio bod astudio ym Mhrifysgol Caerdydd ac yn ein hysgol yn brofiad gwerth chweil a phleserus, ac yn hollbwysig, yn ffordd berffaith i lansio eich gyrfa

**Dr Matt Walsh**
Pennaeth yr Ysgol

# Amdanom ni

Mae ein cartref mewn adeilad a gynlluniwyd yn bwrpasol ym mharth y cyfryngau yng Nghaerdydd, drws nesaf i BBC Cymru Wales, o fewn pellter cerdded i lawer o fusnesau teledu, ffilm, hysbysebu a chysylltiadau cyhoeddus, a gerllaw gorsaf drenau Caerdydd Canolog a Stadiwm y Principality.



## Sylfaen feirniadol

Y peth cyntaf sydd angen i chi ei wybod yw bod ein holl raglenni israddedig yn bennaf yn rhaglenni academaidd, damcaniaethol. Maen nhw'n eich addysgu chi am newyddiaduraeth, y cyfryngau a'r diwydiannau diwylliannol yn hytrach na'ch hyfforddi i fod yn newyddiadurwr, cynhyrchydd teledu neu wneuthurwr ffilmiau.

Mae hwn yn benderfyniad bwriadol ar ein rhan ni. Mae gennym gysylltiadau rhagorol â diwydiannau'r cyfryngau ac, ar y cyfan, maen nhw'n dweud eu bod am gael graddedigion â chefndiroedd academaidd o ansawdd uchel, datryswyr problemau, ymchwilwyr annibynnol, chwaraewyr tîm a meddylwyr beirniadol.

Mae ein graddedigion yn mynd ymlaen i weithio mewn amrywiaeth enfawr o ddiwydiannau cyfryngau a chyfathrebu, ond hefyd mathau eraill o swyddi, fel addysgu, ymchwil, neu sefydlu eu busnesau eu hunain fel entrepreneuriaid.

## Dinas sy'n gyfoethog o ran y cyfryngau

Yng Nghaerdydd mae un o'r crynodiadau mwyaf yn y DU o sefydliadau cyfryngau y tu allan i Lundain a Salford. Felly, mae digon o opsiynau ar gyfer lleoliadau a phrofiad gwaith gyda phapurau newydd, cylchgronau, llwyfannau cyfryngau ar-lein a newyddion darlledu.

Mae yma hefyd sector cynhyrchu teledu a ffilm llewyrchus... ac amrywiaeth o asiantaethau hysbysebu, brandio, cysylltiadau cyhoeddus a marchnata yn y ddinas a'r ardal.

A chofiwch hefyd am Cyfryngau'r Myfyrwyr Caerdydd (yn Undeb y Myfyrwyr) sy'n uchel ei barch ac wedi ennill gwobrau - gyda phapur newydd bob pythefnos, gorsaf radio ddyddiol, a gorsaf deledu yn cynhyrchu cyfryngau gan ac ar gyfer myfyrwyr.

## Rydyn ni'n hapus i siarad

Gobeithio fy mod wedi ateb rhai o'r cwestiynau y gallech fod yn ceisio'u hateb ar hyn o bryd ond os oes gennych gwestiynau pellach, mae croeso i chi gysylltu. Bydden ni'n hapus iawn i siarad â chi.

Yn y cyfamser, pob lwc gyda'ch astudiaethau yn yr ysgol neu'r coleg, a phob lwc wrth wneud eich penderfyniadau.

**Gobeithio y gwelwn ni chi cyn bo hir!**



# Rhagoriaeth ymchwil

## Mae ymchwil yn derm y byddwch chi'n ei glywed yn aml mewn prifysgolion – ond sut fydd hyn yn effeithio arnoch chi?

Mewn prifysgolion ymchwil-ddwys fel Prifysgol Caerdydd, yn ogystal ag addysgu ein myfyrwyr, mae ein darlithwyr hefyd yn cynnal ymchwil arloesol sy'n arwain y byd.

Maen nhw'n golygu cyfnodolion academaidd ac yn ysgrifennu'r llyfrau a'r erthyglau y bydd myfyrwyr sy'n astudio cyfryngau ledled y byd yn eu darllen. Ac rydyn ni hefyd yn defnyddio'r ymchwil yn y ddarlithfa.

Mae hyn yn golygu, os dewiswch chi astudio gyda ni, bod gennych y fantais o gael eich dysgu gan arbenigwyr byd sydd yn llythrennol wedi ysgrifennu'r llyfrau ar eu pynciau. Dyna beth mae addysgu a arweinir gan ymchwil yn ei olygu.

### Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil

Bob saith mlynedd, mae'r Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) yn mesur nid yn unig ansawdd ymchwil prifysgol ond hefyd faint mae hi'n newid y byd ac yn cyfrannu at gymdeithas.

Yn 2014 a 2021 cawsom ein gosod yn ail yn y DU am ansawdd ymchwil mewn astudiaethau cyfathrebu, diwylliannol a'r cyfryngau.

Ystyriodd y panel asesu ystod eang o ymchwil gyhoeddedig yn rhychwantu gwaith ar newyddiaduraeth a democratiaeth, goblygiadau technolegau sy'n datblygu ac arloesedd yn y diwydiant creadigol.

Mae'r canlyniadau hefyd yn golygu mai'r ysgol yw'r ganolfan ymchwil uchaf yng Nghymru mewn unrhyw faes pwnc.



**"Rwy'n fyfyriwr rhyngwladol felly pan symudais i Gaerdydd i ddechrau, roedd pethau braidd yn anodd ond roedd Prifysgol Caerdydd yn cynnal llond lle o ddigwyddiadau, yn enwedig i fyfyrwyr rhyngwladol, a helpodd hynny fi i deimlo'n gartrefol yn y diwylliant.**
Cynhelir cymaint o ddigwyddiadau o amgylch y ddinas sy'n eich helpu i deimlo ysbryd Caerdydd a Phrifysgol Caerdydd yn gyffredinol.
Roedd y cymdeithasau rwyf i wedi bod yn rhan ohonyn nhw'n dod â myfyrwyr at ei gilydd na fyddwn wedi cwrdd â nhw fel arall. Cwrddais i â myfyrwyr o gyrsiau eraill, grwpiau blwyddyn eraill ac o lawer o wahanol wledydd."

**Daria**,
**Y Cyfryngau a Chyfathrebu (BA)**

## Clystyrau ymchwil

Trefnir ein hymchwil o amgylch tri chlwstwr sy'n gorgyffwrdd, ac yn cefnogi synergedd deallusol, ceisiadau grant a gweithgareddau sy'n cael effaith.

- **Newyddiaduraeth a democratiaeth**
  Mae ein clwstwr Newyddiaduraeth a democratiaeth yn ymchwilio i ecoleg newyddion sy'n datblygu'n gyflym ar draws pob math o newyddiaduraeth drwy ymchwilio i lwyfannau sy'n dod i'r amlwg, technolegau newydd ac ymddygiadau newidiol defnyddwyr.
- **Cyfryngau Digidol a Chymdeithas**
  Mae ein clwstwr ymchwil Cyfryngau Digidol a Chymdeithas yn ymgysylltu â chroestoriad datblygiadau technolegol a chymdeithasol newydd, megis rôl y cyfryngau cymdeithasol, trawsnewidiadau mewn diwylliant digidol, mathau newydd o wleidyddiaeth ar-lein, a chasglu a defnyddio data.
- **Y cyfryngau, diwylliant a chreadigrwydd**
  Mae clwstwr y cyfryngau, diwylliant a chreadigrwydd yn cynrychioli ffocws newydd i'r ysgol ac yn dwyn ynghyd ystod eang a rhyng-gysylltiedig o arferion, polisïau ac astudiaethau ar draws y cyfryngau a'r diwydiannau diwylliannol

Mae ein clystyrau ymchwil wedi darparu'r màs critigol o arbenigedd i lansio nifer o brosiectau a chanolfannau mawr sydd wedi cynnwys Clwstwr, rhaglen bum mlynedd uchelgeisiol i greu cynhyrchion, gwasanaethau a phrofiadau newydd ar gyfer y sgrin a rhaglen media. cymru, dan arweiniad Prifysgol Caerdydd, sydd wedi dod â 24 o bartneriaid ym maes cynhyrchu, darlledu, technoleg, prifysgolion ac arweinyddiaeth leol at ei gilydd i sbarduno arloesedd yn y cyfryngau. Mae'r rhaglen gwerth £50 miliwn yn helpu Rhanbarth Prifddinas Caerdydd i fod yn ganolbwynt byd-eang o ran arloesedd a chynhyrchu yn y cyfryngau.

**Rhagor o wybodaeth.**





# Ein graddau

Rydym ni'n cynnig amgylchedd deallusol ysgogol sy'n ymrwymo i fanteisio i'r eithaf ar eich potensial, gyda graddau israddedig sy'n astudio sawl agwedd ar newyddiaduraeth, y cyfryngau, diwylliant a chyfathrebu.

Drwy ddechrau ar eich astudiaethau israddedig gyda ni, byddwch chi'n gosod sylfaen gadarn o safbwynt academaidd ac ymchwil.

Cewch gyfle i astudio modiwlau amrywiol sy'n ymdrin â phynciau sy'n berthnasol yn gymdeithasol ym meysydd y cyfryngau, gwleidyddiaeth a chyfathrebu digidol. Ceir opsiwn hefyd i edrych ar fodiwlau o ysgolion eraill drwy ein graddau cydanrhydedd.

Yn o gystal â chanolbwyntio ar addysgu ein myfyrwyr am safbwyntiau damcaniaethol ac academaidd, rydyn ni hefyd yn hyrwyddo datblygu sgiliau meddwl yn feirniadol a thechnegau ysgrifennu darbwyllol drwy ddarlithoedd, seminarau a sesiynau tiwtora personol.

Mae ein rhaglenni israddedig yn seiliedig ar theori, ond rydyn ni'n cynnwys mwy a mwy o gyfleoedd i fyfyrwyr brofi arferion y diwydiant drwy amrywiol raglenni partneriaeth.

## Clywch! Clywch!

**Oeddech chi'n gwybod ein bod ni'n cynnig cyfle i fyfyrwyr astudio o leiaf 40 credyd y flwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg?**

Ar lefel israddedig mae gennym ni amrywiaeth o fodiwlau cyffrous a chyfoes a ddatblygwyd mewn partneriaeth â'r diwydiant yng Nghymru.

Mae gennych chi'r hawl hefyd i gyflwyno gwaith cwrs a sefyll eich arholiadau drwy gyfrwng y Gymraeg ar draws ein rhaglenni israddedig, waeth beth yw iaith cyflwyno'r modiwlau.

"**Roedd yn eithaf brawychus i ddechrau, felly fe daflais fy hun i mewn i lawer o glybiau gwahanol, a helpodd hynny fi i gwrdd â phobl eraill, a hefyd myfyrwyr trydedd flwyddyn a helpodd fi i deimlo llawer yn hapusach am y sefyllfa ac a roddodd ymdeimlad o gymuned a chyfeillgarwch i mi. Roedd cwrdd â'r bobl hynny'n brofiad cadarnhaol iawn i mi.**
Fel myfyrwyr cydanrhydedd rydyn ni'n cynnal cyfarfodydd rheolaidd, yn enwedig ar ddechrau'r flwyddyn gyntaf, sy'n eich helpu i gysylltu â myfyrwyr eraill ar yr un cwrs neu gyrsiau tebyg i'ch rhai chi.
Ychydig fisoedd ar ôl i mi symud yma dechreuais wneud ffrindiau ac roeddwn i'n teimlo gymaint yn well am fy sefyllfa ac erbyn hyn rwyf i wir yn teimlo fy mod i'n perthyn."

**Emma,**
**Newyddiaduraeth, y Cyfryngau a Llenyddiaeth Saesneg (BA)**

## Newyddiaduraeth a Chyfathrebu (BA)
Cod UCAS: ON3D

Nod y radd hon yw rhoi dealltwriaeth ddadansoddol ac ymarferol i chi o newyddiaduraeth a chyfathrebu a'u rôl hanfodol mewn cyd-destunau hanesyddol a heddiw.

Byddwch yn ennill dealltwriaeth fanwl o newyddiaduraeth a sectorau cyfathrebu cysylltiedig fel cysylltiadau cyhoeddus, marchnata, a chyfathrebu gwleidyddol yn ogystal â sgiliau gwerthfawr ar gyfer gweithredu ynddynt. Byddwn yn disgwyl i chi gynhyrchu traethodau, portffolios digidol a gwahanol fathau o newyddiaduraeth ar draws nifer o lwyfannau.

## Cyfryngau a Chyfathrebu (BA)
Cod UCAS: 3M72

Drwy eich astudiaethau byddwch yn datblygu dealltwriaeth o seiliau hanesyddol a diwylliannol astudio'r cyfryngau a'r diwydiannau diwylliannol a'u rôl yn y gymdeithas fodern.

Mae hon yn radd ar gyfer y rhai sydd â diddordeb mewn dysgu am bob math o gyfryngau nad ydynt yn newyddiadurol: o deledu a ffilm i gyfryngau cymdeithasol a diwydiannau creadigol a diwylliannol eraill.

## Y Cyfryngau, Newyddiaduraeth a Diwylliant (BA)
Cod UCAS: R5V2

Mae'r radd hon yn astudio'r llu o agweddau ar newyddiaduraeth, y cyfryngau, diwylliant a chyfathrebu ac yn ystyried eu heffaith ar gymdeithas, gwleidyddiaeth a diwylliant poblogaidd mewn oes o globaleiddio a newidiadau cymdeithasol.

Mae'n addas ar gyfer y rhai sydd â diddordeb mewn dysgu am bob math o gyfryngau, a'u pwysigrwydd ar gyfer pethau fel ein hunaniaethau, ein cymdeithas, ein gwleidyddiaeth, a'r ffyrdd rydyn ni'n gweld ac yn deall y byd.

## Newyddiaduraeth, Cyfathrebu a Gwleidyddiaeth (BA)
Cod UCAS: J323

Cyflwynir y radd hon ar y cyd ag Ysgol y Gyfraith a Gwleidyddiaeth, a byddwch yn dadansoddi ac yn myfyrio ar newidiadau mewn gwleidyddiaeth a pholisi a gaiff eu sbarduno gan dwf y cyfryngau cymdeithasol, y diwydiant cyfathrebu a'r cylch newyddion 24/7. Mae sefydliadau gwleidyddol wedi cael eu cyfrynguno'n gynyddol dros y blynyddoedd diwethaf, ac mae arweinwyr gwleidyddol bellach yn ystyried y cyfryngau'n bwysig ac yn siarad mewn sylwadau bachog.

Erbyn hyn nid yw ymgyrchu gwleidyddol wedi'i gyfyngu i gyfnodau cyn-etholiadol, ac mae strategwyr cysylltiadau cyhoeddus ac ymgynghorwyr gwleidyddol wedi dod yn fwy canolog i wleidyddiaeth. Mae'r cysylltiadau hyn hefyd yn cael effaith ar bolisi – ar lefel genedlaethol a rhyngwladol.

## Newyddiaduraeth, y Cyfryngau a Llenyddiaeth Saesneg (BA)
Cod UCAS: PQ53

Cyflwynir y radd hon ar y cyd â'r Ysgol Saesneg, Cyfathrebu ac Athroniaeth ac fe gewch ryddid i ddilyn rhaglen draddodiadol o Lenyddiaeth Saesneg sy'n rhychwantu nifer o gyfnodau a genres neu greu cyfuniad mwy arbennig o fodiwlau sy'n cyfuno astudio llenyddol â dadansoddi ffurfiau diwylliannol eraill.

Tra bo elfen newyddiaduraeth y radd yn edrych ar y cyfryngau o ran twf ac arwyddocâd hanesyddol a diwylliannol wrth siapio ein bywydau, mae'r modiwlau llenyddiaeth Saesneg yn canolbwyntio ar ddadansoddiad beirniadol o amrywiol destunau o gyfnodau gwahanol ynghyd ag ymchwilio i syniadau cymhleth.

## Cymraeg a Newyddiaduraeth (BA)
Cod UCAS: PQ55

Cyflwynir y rhaglen hon ar y cyd ag Ysgol y Gymraeg, a bydd yn cynnig cyfoeth o wybodaeth a sgiliau trosglwyddadwy, gan agor drysau i amrywiaeth o yrfaoedd ym meysydd newyddiaduraeth, y cyfryngau neu'r tu hwnt.

Nod y cwrs yw cynhyrchu graddedigion sydd â dealltwriaeth academaidd ac ymarferol drylwyr o'r Gymraeg, ei llenyddiaeth a'i diwylliant, lefel uchel o sgiliau ysgrifenedig a llafar, a sgiliau cyflogadwyedd a chreadigol datblygedig sy'n berthnasol i'r Gymru fodern.

**Ewch i dudalennau gwe'r cwrs i gael rhagor o wybodaeth am y ddwy raglen gan gynnwys gwybodaeth am y modiwlau.**



# Gyrfaoedd

Mae llawer o'n myfyrwyr yn cyrraedd Caerdydd gyda gweledigaeth glir o'u gyrfa ddewisol. Mae eraill yn llunio eu cynlluniau a'u cyfleoedd wrth i'r blynyddoedd gyda ni fynd yn eu blaen ac wrth i bob modiwl gynnig maes newydd i'w archwilio. Ac i eraill, dim ond ar ôl graddio y byddan nhw wir yn dechrau ystyried dewisiadau gyrfa.

Pa bynnag fath o unigolyn ydych chi, bydd ein cyrsiau gradd yn cynnig y sylfaen - a'r hyder - angenrheidiol i chi allu adeiladu a llunio eich gyrfa.

Mae rhai o'n graddedigion yn defnyddio eu gwybodaeth newydd am faterion cyhoeddus a gwleidyddiaeth y byd i ddilyn gyrfa ym maes newyddiaduraeth.

Nid yw ein graddau israddedig yn cynnig hyfforddiant nac achrediad newyddiadurol, ac felly mae llawer yn dewis parhau gydag un o'n cyrsiau Meistr, megis newyddiaduraeth darlledu, cylchgronau, newyddion neu gyfrifiadurol i gael hyfforddiant ymarferol.

Mae graddedigion hefyd yn ystyried eu sgiliau'n ddefnyddiol mewn rolau cyfathrebu a chysylltiadau cyhoeddus, ac yn manteisio ar eu gallu i ysgrifennu copi'n gyflym, yn effeithiol ac ar gyfer cynulleidfa benodol. Yn yr un modd, mae ein graddedigion yn aml yn llwyddo ym myd busnes am eu bod yn gallu strwythuro dadl gydlynol ar bapur ac ar lafar wrth gyflwyno eu syniadau busnes.

Yn wir, byddwch yn dysgu sgiliau sy'n berthnasol i lawer o swyddi sy'n seiliedig ar y cyfryngau modern. Dyma enghreifftiau o lwybrau gyrfa a rolau diweddar:

- cynhyrchu ar gyfer y teledu – cynhyrchydd ac ymchwilydd
- hysbysebu - ysgrifennwr copi a rheolwr ymgyrchoedd
- cysylltiadau Cyhoeddus – rheolwr cyfrif ac awdur
- addysgu – disgyblaethau amrywiol
- newyddiaduraeth – gohebydd lleol a blogiwr
- cynhyrchu Ffilmiau – awdur a chynhyrchydd
- cyhoeddi – awdur a golygydd copi
- cyfathrebu – swyddog y wasg/cyfathrebu

Yn eich ail flwyddyn, bydd ein modiwl Cyflogadwyedd: Gwybodaeth, Sgiliau a Phrofiad yn eich helpu chi i gael profiad ymarferol, creu cynllun gyrfa effeithiol a chystadlu yn y broses recriwtio graddedigion.

Caiff y modiwl ei gyflwyno ar y cyd â thîm Dyfodol Myfyrwyr hynod brofiadol Prifysgol Caerdydd. Cewch gipolwg hanfodol ar y farchnad lafur i raddedigion, gan ganolbwyntio'n benodol ar gyfleoedd i raddedigion ym meysydd newyddiaduraeth, y cyfryngau a diwylliant.

Mae wedi'i gynllunio ar gyfer meithrin sgiliau cyflogadwyedd y gallwch eu defnyddio mewn amrywiaeth o yrfaoedd proffesiynol a graddedig. Mae hefyd yn cynnig cyfle i chi gael profiad ar leoliad gwaith y byddwch yn dod o hyd iddo ac yn ei drefnu o dan arweiniad arweinydd y modiwl.

## Dyfodol Myfyrwyr - cymorth ar gyfer gyrfaoedd a chyflogadwyedd

Byddwn yn cynorthwyo eich datblygiad proffesiynol a'ch sgiliau cyflogadwyedd yn ystod eich cyfnod gyda ni, ond byddwch hefyd yn gallu manteisio ar ein cymorth ar gyfer gyrfaoedd a chyflogadwyedd am hyd at ddwy flynedd ar ôl graddio. Rydym wedi ymrwymo i'ch helpu i gyflawni eich dyheadau gyrfaol.

I'ch helpu i fanteisio i'r eithaf ar eich gradd (a'ch dyfodol) mae'r cymorth yn cynnwys:

- dosbarthiadau meistr cyflogadwyedd – CVs, llythyrau eglurhaol a cheisiadau
- sesiynau cyngor un-i-un gyda chynghorwyr gyrfaoedd cymwysedig
- cynllun cyflogadwyedd Gwobr Caerdydd
- cynlluniau profiad gwaith a chyngor
- ffeiriau gyrfaoedd a digwyddiadau dan arweiniad cyflogwyr i alluogi rhwydweithio gyda phrif gyflogwyr graddedigion

Mae hefyd yn braf gwybod bod 98% o'n graddedigion mewn cyflogaeth, a/neu'n astudio ymhellach, ar fin dechrau swydd neu gwrs newydd, neu'n gwneud pethau eraill fel teithio, 15 mis ar ôl diwedd eu cwrs (Arolwg Hynt Graddedigion 2019/20 - data HESA).


NOT





**Ceir llawer o gyfleoedd i wneud y gorau o amgylchedd awyr agored Caerdydd a De Cymru gyda chymdeithasau ac ati, felly fe ymaelodais i â'r gymdeithas fynydda.** Roedd hyn yn golygu fy mod i'n gallu dod i adnabod pobl yn y gymdeithas yn gyntaf, a rhoddodd hyn yr hyder i mi droi at y person nesaf ataf i yn y dosbarth a siarad â nhw. Fel myfyriwr rhyngwladol roeddwn i wir yn awyddus i astudio dramor oherwydd roeddwn i am weithio gyda phobl eraill ac agor fy hun i ddiwylliannau a phrofiadau eraill. Wrth ymchwilio, fe welais fod Caerdydd yn brifysgol wych sy'n cynnig llawer o gyfleoedd i fynd y tu hwnt i'ch astudiaethau ac rwyf i wedi cwrdd â phobl o lond lle o wledydd."

**Michal, Y Cyfryngau, Newyddiaduraeth a Diwylliant (BA)**



**Fel myfyriwr rhyngwladol gyda chefndir diwylliannol gwahanol i'r DU, roeddwn i'n teimlo bod y myfyrwyr yn ogystal â'r athrawon yma yn agored iawn wrth addasu a fy helpu. Roeddwn i'n teimlo fy mod yn cael fy nerbyn ac yn hapus yma o'r dechrau.** Fel rhywun sy'n ymuno â'r brifysgol ac yn dod o gyfnod bywyd trawsnewidiol, mae prifysgol yn newid mawr, ac rwy'n teimlo bod ymuno ag unrhyw gymdeithas neu glwb, boed chwaraeon neu academaidd, yn gwneud gwahaniaeth mawr. Fe ymunais â'r gymdeithas tenis a chwarae i dîm cyntaf y merched. Roedd chwarae i'r brifysgol mewn twrnameintiau ledled y DU yn beth mawr i mi, dysgais i lawer, rhoddodd lawer mwy o hyder i mi ac fe wnes i lawer o ffrindiau."

**Megha, Journalism Media and Sociology (BA 2021)**

# Gofynion mynediad

Rydyn ni'n derbyn cyfuniad o gymwysterau Safon Uwch a chymwysterau eraill, yn ogystal â chymwysterau rhyngwladol cyfatebol yn amodol ar ofynion mynediad. Mae cynigion nodweddiadol fel a ganlyn:

## Safon Uwch: ABB-BBB

Cymhwyster Prosiect Estynedig/Rhyngwladol: Fel arfer, bydd ymgeiswyr â gradd A yn y Cymhwyster Prosiect Estynedig/Rhyngwladol (EPQ/IPQ) yn cael cynnig un radd yn is na'r cynnig safonol. Noder bod yn rhaid bodloni unrhyw ofynion sy'n benodol i'r pwnc o hyd.

Mae'r amrediad graddau yn cwmpasu ein cynnig safonol a'n cynnig cyd-destunol. Rydyn ni'n ystyried yn ofalus o dan ba amgylchiadau rydych chi wedi bod yn astudio (eich data cyd-destunol) pan ddaw eich cais i law.

Bydd myfyrwyr cymwys yn cael cynnig ym mhen isaf yr amrediad graddau a hysbysebir.

Os nad oes amrediad graddau'n cael ei hysbysebu a/neu os oes prosesau dethol ar waith (fel cyfweliad) efallai y byddwch yn derbyn pwyntiau ychwanegol yn y broses ddethol neu'n cael gwarant o gyfweliad/ystyriaeth.



## Sut i ddod o hyd i ni

### Allwedd

- Ysgol Newyddiaduraeth, y Cyfryngau a Diwylliant
- Adeiladau'r Brifysgol a'r GIG
- Preswylfeydd myfyrwyr

### Sut i ddod o hyd i'r ysgol

Mae'r Ysgol Newyddiaduraeth, y Cyfryngau a Diwylliant wedi'i lleoli yng nghanol dinas Caerdydd. Dafliad carreg o Gampws Cathays, mae ein hadeilad y tu allan i brif fynedfa Gorsaf Reilffordd Caerdydd Canolog ac mae'r BBC a Stadiwm Principality gerllaw.





**Gwybodaeth Gyfreithiol Bwysig**
Mae cynnwys y llyfryn hwn yn ymwneud â chylch derbyn Mynediad 2025, ac roedd yn gywir pan aeth i'r wasg ym mis Gorffennaf 2024. Fodd bynnag, mae cyfnod hir rhwng argraffu'r llyfryn hwn a phryd caiff ceisiadau eu cyflwyno a'u prosesu gennym. Felly, ewch i'n gwefan: **www.caerdydd.ac.uk** cyn cyflwyno cais rhag ofn bod unrhyw newidiadau i'r cwrs sydd o ddiddordeb i chi neu i gyfleusterau a gwasanaethau eraill a ddisgrifir yma. Pan fydd gwahaniaeth rhwng cynnwys y llawlyfr hwn a'n gwefan, cynnwys y wefan fydd yn bwysicach, a hwn sy'n nodi sut rydym yn bwriadu darparu ein gwasanaethau ar eich cyfer.

Eich gradd: Mae myfyrwyr sy'n cael eu derbyn i Brifysgol Caerdydd yn astudio am radd Prifysgol Caerdydd.

FSC Mixed Sources Product group from well-managed forests and other controlled sources Cert no. SGS-COC-005509 www.fsc.org © 1996 Forest Stewardship Council

Mae'r llyfryn hwn wedi'i argraffu ar bapur o ffynonellau cynaliadwy, gan ddefnyddio inc o lysiau. Mae'r papur a ddefnyddiwyd i gynhyrchu'r prosbectws a'r broses weithgynhyrchu wedi'u hardystio gan yr FSC®. Mae'r argraffwyr wedi'u hachredu hefyd hyd at safon ISO14001, y safon amgylcheddol a gydnabyddir yn rhyngwladol.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Mae Prifysgol Caerdydd yn elusen gofrestredig, rhif 1136855

Gellir trefnu i'r prosbectws hwn fod ar gael mewn fformatau gwahanol, gan gynnwys print mawr (testun), mewn Braille neu ar dâp sain/CD.

I ofyn am gopi mewn fformat arall, cysylltwch â Laura Roberts:

Ffôn: **029 2087 4455**
**Ebost**: **RobertsL9@cardiff.ac.uk**

CARDIFF UNIVERSITY
PRIFYSGOL CAERDYDD

**I gael rhagor o wybodaeth am yr Ysgol Cyfrifiadureg a Gwybodeg, ewch i'n gwefan:**

**Cysylltu â ni**


Ysgol Newyddiaduraeth,
y Cyfryngau a Diwylliant
Prifysgol Caerdydd
Dau Y Sgwâr Canolog
Caerdydd CF10 1FS

Ebost: **enquiry@caerdydd.ac.uk**

Ffôn: **+44 (0)29 2087 4455**


**Cadw mewn cysylltiad**

@CardiffJomec